# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

# STRATEGAETH Y RHAGLEN CYMORTH TAI




Sir Conwy, yr amgylchedd cywir i fod yn ddiogel, yn iach ac yn annibynnol

Conwy County, the right environment to be safe, healthy and independent

**Mawrth 2022**

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1.0 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.1 | Pwrpas y Strategaeth | 4 |
| 1.2 | Gweledigaeth ac Egwyddorion | 5 |
| 1.3 | Cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol | 5 |
| 2.0 | Asesu Anghenion | 7 |
| 2.1 | Proses Asesu Anghenion | 7 |
| 2.2 | Canfyddiadau Allweddol | 8 |
| 2.3 | Casgliadau | 9 |
| 3.0 | Blaenoriaethau Strategol | 9 |
| 3.1 | Blaenoriaeth 1: Symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym wrth ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd | 9 |
| 3.2 | Blaenoriaeth 2: Cryfhau ein gwaith partneriaeth i sicrhau bod anghenion cymorth pobl yn cael eu diwallu, a bod anghenion cymhleth/lefel uwch yn cael sylw drwy ddarparu cymorth amlasiantaethol | 10 |
| 3.3 | Blaenoriaeth 3: Darparu gwasanaethau ychwanegol i bobl sy’n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig | 10 |
| 3.4 | Blaenoriaeth 4: Rhoi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid | 11 |
| 4.0 | Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 11 |
| 4.1 | Adborth Rhanddeiliaid | 12 |
| 5.0 | Asesu Effaith | 15 |
| 5.1 | Proses Asesu Effaith | 15 |
| 5.2 | Canfyddiadau Allweddol | 15 |
| 6.0 | Gweithredu, monitro, ac adolygu’r Strategaeth | 15 |
| 6.1 | Gweithio gyda Phartneriaid | 15 |
| 6.2 | Ffynonellau Ariannu | 16 |
| 6.3 | Monitro, adolygu a gwerthuso trefniadau | 16 |

## Rhagair

Croeso i Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai gyntaf Conwy, sy’n nodi ein hymagwedd strategol a’n blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd rhwng 2022 a 2026.

Mae ein Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth a nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd, y newid trawsnewidiol yr ydym wedi ymrwymo iddo er mwyn symud i ddull ailgartrefu cyflym trwy ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, blaenoriaeth Gorfforaethol Conwy o sicrhau bod 'pobl yng Nghonwy â mynediad i lety fforddiadwy, priodol, o ansawdd da sy'n gwella ansawdd eu bywydau’ a chyflawniad ein Strategaeth Tai Lleol.

Rydym wedi gweld newidiadau mawr yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ganlyniad i’r pandemig, y dull ‘Pawb i Mewn’ ac atal yr asesiad angen blaenoriaethol ar gyfer aelwydydd digartref.  Mae hyn wedi arwain at bwysau ychwanegol ar wasanaethau, gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n gwneud ceisiadau digartrefedd ac angen llety dros dro, ynghyd ag arosiadau hirach mewn llety dros dro oherwydd prinder tai addas a fforddiadwy.  Bu hefyd angen cynyddol am wasanaethau cymorth i atal digartrefedd rhag digwydd, neu i helpu pobl i gael a chynnal llety.

Mae’r angen am gyflenwad mwy o dai fforddiadwy yn allweddol i roi diwedd ar ddigartrefedd, ac mae hon yn her sylweddol.  Ond mae heriau sylweddol hefyd yn gysylltiedig â sicrhau bod pawb sydd angen cymorth yn gallu cael mynediad at y cymorth cywir ar eu cyfer, gan fod gwasanaethau cymorth sy’n ymwneud â thai yn chwarae rhan fawr wrth atal digartrefedd.  Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gryfhau ein cymorth atal digartrefedd i bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, ac i fynd i’r afael â heriau pellach wrth inni ddod allan o’r pandemig ac wynebu materion megis effaith y cynnydd mewn costau byw.  Mae angen inni weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i gyflawni’r newidiadau enfawr sydd eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd.  Mater gwasanaethau cyhoeddus yw mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal, yn hytrach na mater Tai yn unig; gallwn gyflawni mwy drwy gydweithio a’i ystyried yn ‘fusnes i bawb’.

Mae ein blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y Strategaeth hon yn dangos ehangder y gwaith sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael ag ystod eang o anghenion cymorth er mwyn lliniaru effaith niweidiol digartrefedd a gweithio tuag at wneud digartrefedd yn beth prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Y Cynghorydd Emily Owen

## 1.0 Cyflwyniad

Mae Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026 (y Strategaeth) yn ymgorffori dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i lunio strategaeth ddigartrefedd a'r gofynion cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cynnal Tai (GCT). Felly mae'r Strategaeth hon yn nodi dull strategol Conwy o atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai, ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau a ariennir gan GCT. Mae'r Strategaeth yn ddogfen pedair blynedd, gydag adolygiad i'w gynnal hanner ffordd.

Daeth y Grant Cymorth Tai i fodolaeth fis Ebrill 2019, pan gyfunwyd tri chynllun grant; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru. Mae'n rhaglen grant ymyrraeth gynnar sy'n cefnogi gweithgarwch i atal pobl rhag mynd yn ddigartref, eu helpu i gael cartref sefydlog neu helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Mae'n ategu, yn ychwanegu ac yn cefnogi dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol i atal digartrefedd.

Bellach mae mwy o bobl yn byw mewn llety dros dro ac angen tai fforddiadwy a chymorth er mwyn symud ymlaen o ddigartrefedd a pheidio â'i brofi eto. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig mae angen mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi digartrefedd a chryfhau gwaith atal ac ymyrraeth gynnar. Mae angen enfawr hefyd i gynyddu mynediad at dai fforddiadwy er mwyn ateb y galw.

Mae dod â digartrefedd i ben yn gofyn am lety addas, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r math cywir o gymorth ar yr adeg gywir i unrhyw un sydd ei angen, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma.

## 1.1 Pwrpas y Strategaeth

Mae'r Strategaeth hon yn nodi blaenoriaethau allweddol Conwy ar gyfer y pedair blynedd nesaf ar gyfer atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai mewn perthynas â'r GCT a dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru 2014. Mae'n ymgorffori Strategaeth Digartrefedd Conwy (2018-2022) ac felly'n bodloni'r gofynion statudol ar gyfer strategaeth ddigartrefedd o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r Strategaeth hon yn cefnogi ymrwymiad Conwy i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru a'i wneud yn beth 'prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto' pan fydd yn codi.

Mae nifer yr aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd wedi codi'n sylweddol ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020 ac yn parhau i fod ar lefel uchel, gyda nifer cynyddol o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro, ac am gyfnodau hwy o amser. Mae angen cyfranogiad sylweddol gan ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Mae'r Strategaeth hon yn blaenoriaethu atal digartrefedd lle bynnag y bo modd drwy ddefnyddio ymyriadau cynnar sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol ac yn cymeradwyo'r egwyddorion sy'n sail i atal digartrefedd:

- Mae atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn fater i'r gwasanaethau cyhoeddus
- Yr ymyraethau cynharaf yw'r rhai gorau a mwyaf cost effeithlon, ac fe ddylai'r rhain fod yn ddewis cyntaf bob tro
- Dylai bob gwasanaeth roi'r unigolyn wrth wraidd eu gwaith a gweithio gyda'i gilydd mewn modd sy'n deall trawma

Mae'r blaenoriaethau a nodir yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad cynhwysfawr o anghenion a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2021, ac yn ystyried barn rhanddeiliaid allweddol. Mae ymgysylltu mwy diweddar a gynhaliwyd yn ystod proses ymgynghori ar fersiwn ddrafft y strategaeth hon hefyd wedi'i ddefnyddio i lywio'r ddogfen Strategaeth derfynol hon.

## 1.2 Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae gweledigaeth Conwy ar gyfer atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai fel a ganlyn:

*Mae gwasanaethau allweddol yn defnyddio dull cydlynol ar gyfer gweithgareddau atal digartrefedd i sicrhau bod digartrefedd yn beth prin yng Nghonwy. Lle na ellir atal digartrefedd, gall pobl symud i lety'n gynt a chael mynediad at gefnogaeth briodol, i sicrhau na fydd yr unigolyn/unigolion yn ddigartref eto. Os bydd angen llety dros dro, bydd ond yn cael ei ddefnyddio am gyfnod byr.*

I gyflawni'r weledigaeth mae pedair egwyddor allweddol, a nodir isod:

- Byddwn yn sicrhau bod ymyriadau cynnar ar gael i bobl sy'n cael eu bygwth â digartrefedd, i'w galluogi i gael mynediad at y gefnogaeth, y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i atal digartrefedd lle bynnag y bo modd.
- Lle na ellir atal digartrefedd, mae llety dros dro neu lety â chymorth a ddarperir o safon uchel
- Lle na ellir atal digartrefedd, bydd yn beth 'prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto'
- Bydd gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar gael i bawb sydd eu hangen i gynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosibl


## 1.3 Cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Ategir y Strategaeth gan ddeddfwriaeth, strategaethau cenedlaethol a fframweithiau sy'n effeithio ar Wasanaethau Digartrefedd a'r Rhaglen Cymorth Tai, gan gynnwys y canlynol:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a rheoliadau Safonau'r Gymraeg
- Canllawiau Ymarfer Grant Cymorth Tai 2021 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU
- Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2012–2016, Llywodraeth Cymru
- Canllaw Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2021
- Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016:
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth:  Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel

Yn lleol mae'r Strategaeth hon yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Corfforaethol Conwy 2022 i 2027 ac mae'n un o dair strategaeth sydd wedi'u datblygu i gefnogi gweithrediad Strategaeth Tai Lleol Conwy (STLl).




Gweledigaeth STLl Conwy 2018 yw 'Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd'.  Mae yna 4 amcan allweddol i gyflawni hyn:

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy.
- Sicrhau bod cefnogaeth tai ar gael i'r rhai sydd ei hangen
- Gwella ansawdd y sector preifat
- Sicrhau bod pobl yn deall eu dewisiadau tai, er mwyn iddynt fedru gwneud penderfyniad cytbwys

Mae'r STLlh yn cyfrannu'n uniongyrchol i Ganlyniad 4 o Gynllun Corfforaethol Conwy, sef 'Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd'.  Cefnogir hyn gan y camau blaenoriaeth canlynol:

- Gweithio i gynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy a hygyrch
- Wrth weithio mewn partneriaeth byddwn yn adolygu ein gwasanaethau er mwyn cryfhau ein dull atal digartrefedd ymhellach, wrth geisio cynllunio ar

gyfer newid tuag at ailgartrefu cyflym i'r rhai sy'n profi digartrefedd fel ei fod yn brin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto

## 2.0 Asesiad Anghenion

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad anghenion cynhwysfawr bob pedair blynedd, gydag adolygiad llai manwl bob dwy flynedd. Cynhelir yr asesiad o anghenion mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac mae'n defnyddio data cenedlaethol a lleol i lywio ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gwasanaethau a'u darparu.

Mae'r ddogfen Datganiad o Angen yn nodi'r galw presennol ac yn y dyfodol am wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai, gan gynnwys anghenion rhanbarthol, ac mae'n nodi sut y caiff yr anghenion a nodwyd eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol. Caiff ei gyhoeddi ar wahân.

## 2.1 Proses Asesu Anghenion

Cwblhawyd asesiad anghenion Conwy ym mis Rhagfyr 2021, ac fe'i lluniwyd yn unol â'r Canllawiau Grant Cymorth Tai (Mawrth 2021). Fe'i cynhaliwyd mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid allweddol a chasglwyd gwybodaeth o nifer o ffynonellau perthnasol a dibynadwy.

Defnyddiwyd y ffynonellau data canlynol:

- Asesiad o anghenion y boblogaeth
- Asesiad lles yr Awdurdod Lleol
- Ystadegau digartrefedd a data tai arall, fel rhestrau aros
- Mynegai amddifadedd lluosog Cymru
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid cyflenwi GCT
- Asesiadau o anghenion VAWDASV rhanbarthol
- Data Canlyniadau Cefnogi Pobl
- Data angen gan bartneriaid cyflawni GCT
- Data Llwybr Cefnogi Pobl
- Data anghenion heb eu diwallu dros y 12 mis diwethaf gan bartneriaid cyflenwi GCT a data ceisiadau digartrefedd
- Prosbectws CBSC 2021

Cytunodd Swyddogion Arweiniol y Grant Cymorth Tai i ddod at ei gilydd i ymgynghori â'r Darparwyr a Defnyddwyr y Gwasanaethau ar gynhyrchu eu Hasesiadau o Anghenion GCT unigol, ac mae hynny yn ei dro wedi llywio'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth hon. Dosbarthwyd holiadur rhanbarthol Gogledd Cymru i bartneriaid cyflenwi GCT, gyda holiadur ar wahân wedi'i gwblhau gan bobl oedd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau a ariennir gan GCT. Roedd yr ymatebion hyn yn darparu gwybodaeth a gafodd ei hystyried wrth gynhyrchu'r Asesiad Anghenion, yr oedd drafft ohono'n destun ymgynghoriad gyda phartneriaid cyflenwi GCT Conwy a defnyddwyr gwasanaeth ac y cytunwyd arno gyda Grŵp Cynllunio GCT Conwy ym mis Ionawr 2022. Caiff ei gyhoeddi ar wahân.

## 2.2 Canfyddiadau Allweddol

Cytunwyd ar yr Asesiad Anghenion gan Grŵp Cynllunio GCT Conwy ym mis Ionawr 2022, yn dilyn ymgynghoriad ar fersiwn drafft gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Asesiad Anghenion wedi nodi'r canfyddiadau a'r materion allweddol canlynol:

Mae gwasanaethau yn adrodd am gynnydd mewn:

- Achosion cymhleth, yn enwedig pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ynghyd ag anghenion eraill
- Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl sy'n profi problemau cam-drin domestig
- Nifer y bobl ifanc sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd
- Nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau a rhestr aros am wasanaethau
- Nifer y bobl sy'n ddigartref, gyda chynnydd arbennig yn nifer y bobl sengl
- Hyd arhosiad mewn llety â chymorth oherwydd prinder opsiynau symud ymlaen

Mae adborth gan bartneriaid cyflawni GCT a data Canlyniadau Cefnogi Pobl yn dangos bod angen mwy o wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl sydd â:

- Phroblemau iechyd meddwl
- Problemau camddefnyddio sylweddau
- Ymddygiad troseddol
- Anghenion cymhleth
- Ffoi rhag camdriniaeth ddomestig
- Pobl Ifanc

Mae 'anghenion cymhleth' yn anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol parhaus a chydgysylltiedig, sy'n effeithio ar fywyd unigolyn a'i allu i weithredu mewn cymdeithas, ac yn cynnwys:

- Anghenion iechyd meddwl, seicolegol neu emosiynol
- Anghenion iechyd corfforol
- Dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol.
- Cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol
- Profiad o gam-drin domestig neu gamdriniaeth.

Mae angen lefel uchel o gymorth ar bobl ag anghenion cymhleth sydd y tu hwnt i'r cymorth y gall gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ei ddarparu, ac mae angen cymorth gan o leiaf un gwasanaeth arall. Mae fel arfer o ganlyniad i gyfuniad o anghenion.

Mae angen:

- Cyflenwad cynyddol o dai fforddiadwy ar gyfer amrywiaeth o aelwydydd oherwydd newidiadau yn y farchnad eiddo, yn enwedig ar gyfer pobl sengl
- Llety a gwasanaethau i bobl ag ymddygiad troseddol penodol a/neu anghenion cymhleth

- Ymyrraeth yn gynharach er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i atal digartrefedd

## 2.3 Casgliadau

Mae ein Hasesiad Anghenion a'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mewn perthynas â'r Strategaeth hon wedi nodi 5 blaenoriaeth strategol ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwneud ceisiadau digartrefedd ac angen llety dros dro wedi arwain at bwysau cynyddol ar ystod o wasanaethau. Mae rhai meysydd allweddol i roi sylw iddynt:

- Cynnydd yn nifer y bobl sengl sydd angen cymorth oherwydd digartrefedd, ac y mae diffyg tai fforddiadwy ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc iawn sydd â phrofiad o ofal
- Anawsterau wrth ddarparu llety dros dro neu lety â chymorth addas i bobl sydd ag ymddygiad troseddol, problemau iechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, diagnosis deuol neu angen lefel uchel arall am gymorth
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a diffyg gwasanaethau arbenigol
- Diffyg cymorth priodol i ddiwallu anghenion rhai pobl, yn enwedig y rheini a all fod ag anghenion lefel uwch neu gymhleth, gan arwain at fwy o debygolrwydd o ddigartrefedd dro ar ôl tro. Mae'n bosibl y bydd gan bobl anghenion cymorth lluosog a/neu anghenion cymorth sy'n gofyn am ddull aml-asiantaeth

## 3.0 Blaenoriaethau Strategol

Er mwyn cefnogi Conwy a phartneriaid allweddol i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o wneud digartrefedd yn beth 'prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto', cytunwyd ar bum blaenoriaeth strategol ar gyfer darparu gwasanaethau GCT a gwasanaethau atal digartrefedd statudol. Cyrhaeddwyd y rhain o ganlyniad i'r asesiad o anghenion, ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau, ymgynghori ehangach, polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau corfforaethol.

### 3.1 Blaenoriaeth 1: Symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym wrth ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd

<u>Pam</u>

Dyma flaenoriaeth gyffredinol Conwy ac mae'n cwmpasu'r holl wasanaethau digartrefedd, gyda'r prif bwyslais ar atal digartrefedd lle bynnag y bo modd trwy ymyrraeth gynnar.

Sut

Mae ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (CPAC) yn amlinellu'r newidiadau sydd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt er mwyn trawsnewid sut mae gwasanaethau digartrefedd yn cael eu darparu a chyflenwi dull ailgartrefu cyflym.

Camau Gweithredu Allweddol

Byddwn yn darparu dull ailgartrefu cyflym drwy roi ein CPAC ar waith gyda phedwar maes ffocws allweddol:

- Trawsnewid ansawdd a defnydd o lety dros dro.
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy.
- Sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen.
- Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu gan bob gwasanaeth.

Mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Conwy ar gael ar wefan y Cyngor: www.conwy.gov.uk

**Blaenoriaeth 2: Cryfhau ein gwaith partneriaeth i sicrhau bod anghenion cymorth pobl yn cael eu diwallu, a bod anghenion mwy cymhleth/lefel uwch yn cael sylw drwy ddarparu cymorth amlasiantaethol**

Pam

Mae angen cynyddol am wasanaethau sy'n cefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth/lefel uwch, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, ymddygiad troseddol, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig, a all fod yn cyd-ddigwydd.

Sut

Byddwn yn:

- Sicrhau bod gwasanaethau GCT yn diwallu anghenion pobl sydd angen gwasanaethau digartrefedd ac atal
- Gweithio'n agosach gyda gwasanaethau allweddol megis Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Iechyd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, Diogelwch Cymunedol

Camau Gweithredu Allweddol

- Adolygu gwasanaethau GCT presennol mewn ymgynghoriad â phartneriaid darparu a defnyddwyr gwasanaeth i gytuno ar fylchau a gwelliannau i wasanaethau
- Gweithredu llwybrau cliriach ar gyfer cyrchu cymorth priodol

**Blaenoriaeth 3: Darparu gwasanaethau ychwanegol i bobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig**

Pam

Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.  Efallai y bydd angen gwasanaethau arbenigol ar rai pobl.

Sut

Ailfodelu gwasanaethau a darparu gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys llety gyda chymorth 24 awr ar gael

Camau Gweithredu Allweddol

Adolygu gwasanaethau GCT presennol mewn ymgynghoriad â phartneriaid darparu a defnyddwyr gwasanaeth i gytuno ar fylchau a gwelliannau i wasanaethau

**Blaenoriaeth 4: Rhoi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid**

Pam

Mae nifer cynyddol o bobl ifanc yn profi digartrefedd, ac mae prinder arbennig o ddifrifol o dai fforddiadwy i ddiwallu eu hanghenion

Sut

Mynd i'r afael â'r rhesymau mwyaf cyffredin pam mae pobl ifanc yn dod yn ddigartref trwy waith ymyrraeth gynharach a gynhaliwyd ar y cyd â gwasanaethau eraill

Camau Gweithredu Allweddol

- Gweithio gydag Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid i wella adnabyddiaeth gynnar ar gyfer teuluoedd mewn perygl a chyfleoedd ar gyfer ymyrraeth
- Adolygu'r broses gynllunio ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal

## 4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae amrywiaeth o bartneriaid allweddol a rhanddeiliaid ehangach wedi darparu gwybodaeth ac wedi cymryd rhan mewn ymgynghori ac ymgysylltu i ddatblygu'r Strategaeth hon:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl BIPBC
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau BIPBC
- Tîm Unigolion Diamddiffyn CBSC
- Gofal Cymdeithasol CBSC
- Tîm Anableddau CBSC
- Tai yn Gyntaf CBSC/CSDd
- VAWDASV
- Partneriaid cyflenwi presennol y Grant Cymorth Tai, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Defnyddwyr gwasanaeth
- Tîm Strategaeth Tai CBSC
- Tîm Atal Digartrefedd CBSC
- Tîm Grant Cymorth Tai CBSC, gan gynnwys y Llwybr Sengl

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

Mae cyfranogiad partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wedi digwydd ar wahanol adegau yn ystod cynhyrchu'r Strategaeth hon ac mae wedi galluogi nodi ystod o anghenion a materion, ac i'r rhain lunio'r ddogfen derfynol hon.

Ymgynghorwyd â’r dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ddilyn 5 ffordd o weithio:

- Cyfranogi - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen hefyd i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor
- Integreiddio - ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion lles, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
- Atal - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu
- Tymor hir - gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles
- Cydweithredu - sut allai gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Oherwydd effaith y pandemig mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i wneud o bell. Byddwn yn ceisio cynnal mathau ychwanegol o ymgynghori er mwyn llywio’r gwaith o ddiweddaru’r Strategaeth yn 2024.

Anfonwyd arolygon rhanbarthol Gogledd Cymru at bartneriaid cyflenwi GCT a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn llywio’r asesiad anghenion:

https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/user/en/

https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/user/cy/

https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/provider/en/

https://www.conwy.gov.uk/sep/snap/hsgstrategy/provider/cy/

## 4.1 Adborth rhanddeiliaid

### Adborth gan Bartneriaid Cyflenwi GCT

Cafwyd cyfanswm o 113 o ymatebion i holiadur Gogledd Cymru; Dywedodd 28 o'r rheini eu bod yn ymateb am Gonwy. Y prif themâu a gododd oedd:

- Cynnydd yn nifer y problemau iechyd meddwl (weithiau’n ymwneud â mwy o alcohol yn cael ei yfed) a chynnydd yn nifer y bobl ag anghenion iechyd meddwl mwy cymhleth
- Cynnydd mewn iechyd meddwl/ lles meddwl gwael
- Mwy o ail byliau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n dioddef o iechyd meddwl

- Cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cynnydd yn nifer y bobl risg uchel iawn sydd angen llety
- Cynnydd mewn pryder ac iselder yn dilyn cyfnodau ynysu a phroblemau cymdeithasoli; mae llawer o bobl wedi datblygu pryder cymdeithasol ac nid ydynt am fynychu digwyddiadau gydag eraill
- Cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau
- Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth
- Dirywiad yn y rhai â dementia
- Mwy o broblemau iechyd meddwl a materion sy’n cyd-ddigwydd fel camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac ati. Mae'r sylwedd a ddewisir wedi newid ac mae unigolion yn defnyddio gwahanol sylweddau nad ydynt yn gwybod llawer amdanynt
- Mwy o gleientiaid sydd wedi dechrau yfed mwy ac sy'n ymddangos fel pe baent yn dibynnu ar alcohol
- Nifer llawer uwch o atgyfeiriadau cam-drin domestig na chyn-bandemig, gyda rhai atgyfeiriadau sydd angen mwy o ofal na chymorth ac felly nad ydynt yn addas ar gyfer ein gwasanaeth
- Mwy o bobl ddim yn cael llety dros dro oherwydd salwch meddwl a diffyg dealltwriaeth o’r gwasanaeth hwnnw o ran ymgysylltu â’r grwpiau carfan hyn
- Roedd cymorth ar-lein ar gael weithiau ac er bod hyn yn gweithio i rai, nid oedd yn gweithio i eraill
- Defnyddio hunan-ynysu/Covid fel rheswm i beidio ag ymgysylltu â gwasanaethau/Gweithwyr Prosiect
- Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd hunan-esgeuluso, cyfarfodydd atal marwolaeth, atgyfeiriadau diogelu a thîm amlddisgyblaethol a alwyd gan staff cymorth i ddod ag asiantaethau ynghyd
- Anawsterau neu amharodrwydd i gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol

<u>Tueddiadau sy’n Dod i’r Amlwg / Cymhlethdod Atgyfeiriadau</u>
Nododd y Darparwyr bod rhai pobl wedi datblygu gorbryder cymdeithasol ac yn teimlo’u bod wedi’u hynysu ar ôl y cyfnodau clo yn sgil y pandemig. Roedd pobl hefyd mewn trafferthion ariannol oherwydd cynnydd yn eu biliau ac/neu newidiadau yn eu hincwm. Roedd tor-perthynas yn rheswm arall pam fod pobl angen gwasanaethau ac/neu’n canfod eu hunain yn ddigartref. Codwyd mynediad at wasanaethau iechyd meddwl fel un o’r bylchau yn y gwasanaethau.


<u>Ailgartrefu Cyflym</u>
Nododd sefydliadau fod diffyg llety fforddiadwy i ailgartrefu pobl ynddo yn rhwystr i Ailgartrefu Cyflym, ond roeddent yn gyffredinol yn cefnogi Ailgartrefu Cyflym, ar yr amod bod digon o lety ar gael. Roedd sefydliadau hefyd yn barod i gynnig llety a chymorth i bobl oedd ei angen. Teimlai rhai na fyddai 5 mlynedd i weithredu dull Ailgartrefu Cyflym yn gyraeddadwy. Hoffai sefydliadau weld llety fforddiadwy addas, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, gyda chymorth os oes angen, yn cael ei gynnwys yn GCY Conwy.

**Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth**

Mae’r canlynol yn rhoi trosolwg cryno i ni o’r adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaethau a ymatebodd ar gyfer Conwy.  Cafwyd cyfanswm o 103 o ymatebion ar gyfer Conwy allan o gyfanswm o 531 o ymatebion ar gyfer gogledd Cymru. (Sylwer: nid oedd pob cwestiwn yn orfodol ac felly ni fydd pob ymateb yn cyfateb i 103.)

Dewisodd 92 o bobl ddatgelu'r math o gymorth a gawsant; Roedd 48 yn byw mewn llety â chymorth a 44 yn cael cymorth fel y bo'r angen.

Byddai’n well gan y mwyafrif o unigolion barhau i gael cymorth wyneb yn wyneb.




Dywedodd 94% o’r ymatebwyr fod ansawdd eu llety yn foddhaol neu’n uwch (roedd 50% o’r farn ei fod yn rhagorol, dywedodd 34% ei fod yn dda a dywedodd 10% ei fod yn foddhaol.)

Dywedodd 82% o ymatebwyr fod trafnidiaeth gyhoeddus yn caniatáu mynediad hawdd at gymorth

Roedd 88% o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu llety, dim ond 10% oedd yn teimlo'n ddiogel weithiau

Dywedodd 68.6% o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo’n ynysig, roedd 7.8% yn teimlo’n ynysig a 23.5% weithiau’n teimlo’n ynysig

Dywedodd 93.2% eu bod yn teimlo bod eu darparwyr cymorth yn gwrando arnynt

Dywedodd 22.5% o ymatebwyr eu bod yn gallu fforddio prisiau llety rhent presennol, dywedodd 22.5% na allent a dywedodd 55% efallai y gallent

Mae diffyg adborth o rai ffynonellau allweddol, gan gynnwys:

- unigolion y gellid bod wedi gwrthod gwasanaethau cymorth iddynt yn dilyn rhyngweithiad â darparwyr.
- unigolion sydd wedi gadael y gwasanaethau i fod yn ddigartref,
- unigolion nad ydynt wedi elwa ar wasanaethau

Bydd ffyrdd o fynd i'r afael â hyn yn cael eu hystyried pan gaiff y Strategaeth ei hadolygu yn 2024.

## 5.0 Asesiadau Effaith

### 5.1 Proses asesu effaith

Un o werthoedd Conwy yw 'Rydym yn deg i bawb'. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi nifer o themâu trawsbynciol sy'n effeithio ar ei flaenoriaethau, gan gynnwys 'Trin pobl yn deg a chefnogi cyfle cyfartal'. Ategir hyn gan gynlluniau megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Integredig, gan ddefnyddio offeryn aml-bwrpas Conwy sy'n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac y rhoddir sylw dyledus i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ac ystyriaeth o Safonau'r Gymraeg.

### 5.2 Canfyddiadau allweddol

Yn gryno, roedd y mwyafrif o'r effeithiau a nodwyd yn gadarnhaol. Mae prosiectau a gwasanaethau a gomisiynwyd gyda chyllid y Grant Cymorth Tai yn hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol gyda phobol sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo annibyniaeth ac nid ydynt yn eithrio unrhyw un oherwydd unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Nodwyd dwy effaith negyddol mewn perthynas â chasglu data, yr eir i'r afael â hwy trwy well darpariaeth gwybodaeth cydraddoldeb.

## 6.0 Gweithredu, monitro, ac adolygu'r Strategaeth

### 6.1 Gweithio gyda Phartneriaid

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod y Strategaeth a'r camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith, gan fonitro ac adolygu cynnydd a chytuno ar ddiwygiadau lle bo'n briodol, yn seiliedig ar werthuso perfformiad. Bydd partneriaid allweddol yn cymryd rhan yn yr adolygiad o'r Strategaeth hon a'i blaenoriaethau yn 2024.

## 6.2 Ffynhonnell Cyllid

Er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau, bydd y cyllid canlynol yn cael ei ddefnyddio yng Nghonwy:

- Grant Cymorth Tai
- Grant Tai Cymdeithasol
- Cyllid Craidd (darpariaeth gwasanaeth statudol)

## 6.3 Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

Bydd Grŵp Cynllunio GCT Conwy yn cadw trosolwg o'r Strategaeth ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Tîm GCT ar ei gweithrediad. Mae gan y grŵp hwn yr aelodaeth ganlynol:

- Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai CBSC
- Rheolwr Gwasanaethau Tai CBSC
- Rheolwr Datrysiadau Tai CBSC
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg CBSC
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig CBSC
- Pennaeth Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu CBSC
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Sector Gwirfoddol (Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
- Cymorth Cymru neu CHC
- Cadeirydd y Fforwm Darparwyr Gwasanaeth
- Cynrychiolydd Landlordiaid
- Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb dros y Grant Cymorth Tai

Yn unol ag Amodau ein GCT, byddwn yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r strategaeth a'r cynllun gweithredu fel a ganlyn:

- Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol, chwe-misol a blynyddol yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda'r grwpiau/partneriaid canlynol:
    - Grŵp Cynllunio GCT Conwy
    - Y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol
    - Y Bartneriaeth Strategol Tai
    - Llywodraeth Cymru